

Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gâr

## 1. GWELEDIGAETH

Os y weledigaeth yw 'Sir Gâr ddwyieithog', golygir fod pawb yn rhugl yn y ddwy iaith. Ni all yr Adran Addysg fod yn gyfrifol am iaith oedolion sy'n symud i fyw i'r sir (er y gall ddarparu cyrsiau) ond gall sирchau fod POB disgybl yn datblygu'r sgil i gyfathrebu a gweithio yn y ddwy iaith o ganlyniad i'w addysg statudol. Nid yw 'twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant Cymraeg' yn ddigonol fel nod i gyflawni hyn gan mai addysg gyfrwng Cymraeg yn unig sy'n datblygu'r rhugledd yn y ddwy iaith.

Er bod hyn yn tu hwnt i ystod y CSGA fel y cyfryw, dylid nodi wrth fynd heibio fod y system addysg yn gallu gwneud cyfraniad pwysig arall tuag at y weledigaeth o 'Sir Gâr ddwyieithog', sef trosglwyddo i ddysgwyr y wybodaeth a sgiliau hanfodol ar gyfer medru ennill bywoliaeth yn y sir er mwyn gwrthweithio'r allfudiad o bobl ifainc sydd wedi derbyn addysg Gymraeg. Mae cynnwys yr addysg felly yn berthnasol iawn.

## 2. EGWYDDORION

Mae'r pumed egwyddor yn datgan y 'BYDD POB DYSGWR YN RHUGL MEWN DWY IAITH A MWY'. Gan mai addysg gyfrwng Cymraeg yn unig sy'n datblygu'r rhugledd hwn, mae angen datgan yn glir y bydd POB ysgol felly ar gontinwmm tuag at addysg Gymraeg.

## 3. AMCANION

O ystyried yr amcan gyntaf, datganwn eto 'gan mai addysg gyfrwng Gymraeg yn unig sy'n datblygu'r rhugledd, mae angen datgan yn glir y bydd POB ysgol felly ar gontinwmm tuag at addysg Gymraeg'. Dyma'r unig dull ymarferol o wireddu'r amcan.

Nodod y Prif Weinidog, Carwyn Jones mewn llythyr at Gymdeithas yr Iaith ym mis Rhagfyr llynedd: *'Rydym o'r farn bod y cysyniad "Cymraeg fel ail iaith" yn creu gwahaniaeth artiffisial, ac nid ydym o'r farn bod hyn yn cynnig sylfaen ddefnyddiol ar gyfer llunio polisiau at y dyfodol....*

*Wrth inni gamu ymlaen, rhaid i'r polisi symud i fwrdd o'r cysyniad o "ail iaith" tuag at ystyriaeth integredig a chydlynol o'r Gymraeg fel iaith wirioneddol fyw. '*

Cefnogwn yn frwd y bwriad i baratoi nawr tuag at ddysgu Cymraeg ar hyd un continwmm dysgu o 2020 ymlaen. Dylai cynlluniau peilot gychwyn mor fuan â phosibl yn hytrach nag aros nes bod pwnc 'Cymraeg Ail Iaith' yn diflannu.

Bydd targedau cyfredol y CSGA yn tanseilio'r amcanion hyn o hybu dilyniant mewn addysg gyfrwng Cymraeg gan adael i sgiliau Cymraeg llawer o fyfyrwyr ddirywio mewn ysgolion uwchradd lle derbyniant bron y cyfan o'u haddysg yn Saesneg.

## 4. POLISIAU LLYWODRAETH CYMRU

Strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fel cyfraniad, dylai'r Cyngor Sir osod targed o 150,00 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr.

## 7. DEILLIANNAU A CHYNLLUN GWEITHREDU

Deilliant 1 - Cynyddu nifer y plant 7 oed mewn addysg gyfrwng Cymraeg o 1% y flwyddyn. Gwrthwynebwn yn llwyr y diffyg uchelgais yma. Yn ôl targed y Cyngor, erbyn 2020 bydd dal bron 40% o ddisgyblion 7 oed yn cael eu hamddifadu o'r gallu i gyfathrebu a gweithio yn Gymraeg, a rhagor wedyn yn cael eu colli o ddiffyg dilyniant. Mae angen ailadrodd polisi llwyddiannus (yn yr ardaloedd gwledig) Awdurdod Addysg Dyfed yn y 1980au. Yn hytrach na phroses hir o geisio cynyddu canran y disgyblion unigol, bu polisi sirol o benodi pob ysgol gynradd yn y rhan helaethaf o'r diriogaeth yn ysgolion categori A lle roedd yr addysgu oll trwy gyfrwng y Gymraeg tan 7 oed, ac yn bennaf Gymraeg yn CA2. Dylai'r pwyslais felly fod ar strategaeth ac amserlen pendant i roi pob ysgol gynradd ar gontinwmm tuag at addysg Gymraeg. Dylai'r Awdurdod Addysg gefnogi ein galwad ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio Côt Trefniadaeth Ysgolion i alluogi un ymgyngoriad sirol ar yr amcan hwn. Mae'n gwbl annerbyniol fod 40% o blant cynradd y sir yn cael eu hamddifadu o un o'r sgiliau addysgol pwysicaf mewn cymuned ddwyieithog a'u gosod tan anfantais. Cefnogwn

datblygiad ffederasiynau yn gyffredinol er yn asesu sefyllfaoedd lleol, er mwyn cryfhau arweinyddiaeth i wireddu amcanion fel hyn. Anghytunwm yn llwyr gyda'r dull o 'monitro'r galw'. Mae dyletswydd ar y Cyngor gyrru'r galw a gwella'r darpariaeth. Yn erbyn natur pobl yw eu disgwyl gofyn am rywbeth sy ddim eto yn bodoli.

Deilliant 2, 3 a 4 - Cynyddu canran y disgyblion uwchradd a hŷn sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ac sy'n dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Tynnwn sylw at y ffaith y daw y mesurydd cyntaf yn fywfwy diystyr wrth fod Cymraeg ail iaith yn diflannu a phob disgybl yn dilyn cwrs Cymraeg i wahanol lefelau. Unwaith eto, gwrthwynebwn y mesurydd o ffocysu ar ganrannau disgyblion unigol sy'n parhau i dderbyn addysg gyfrwng Cymraeg. Mae'r mesurydd yn fwy anaddas byth mewn ysgolion uwchradd gan fod disgyblion yn gallu dilyn efallai rhan o un pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwell fesurydd yw edrych ar gategori iethyddol yr ysgol. Dim ond mewn ysgolion categori 1 a 2A y mae sicrwydd y bydd disgyblion yn derbyn rhan arwyddocaol o'u haddysg yn Gymraeg ac felly yn datblygu'r sgil i gyfathrebu a gweithio yn rhugl yn Gymraeg. Mae'r ffigyrau a roddir yn dangos mai ond 24.9% o ddisgyblion uwchradd y sir sydd mewn ysgolion uwchradd categori 1 a 2A. Yr unig ffordd o sicrhau na chaiff cenedlaethau eto o dri chwarter disgyblion uwchradd y sir eu hamddifadu o'r sgil addysgol hanfodol hwn yw ffocysu ar symud yr ysgolion eu hunain ar hyd y continwmm iaith yn hytrach na ffocysu ar geisio annog rhagor disgyblion unigol. Yn ystod cyfnod y CSGA nesaf, mae angen anelu at symud bob ysgol un categori i fyny'r continwmm tuag at addysg Gymraeg h.y. y bedair ysgol EM i fod yn EW, y dair ysgol EW i gategori 2B a symud y ddwy ysgol 2B i gategori 2A. A derbyn fod prosesau o'r fath yn cymryd amser, a bod newidiadau yn cychwyn yn y dosbarthiadau ieungaf, byddai amserlen o'r fath yn golygu fod mwyafrif y disgyblion (bron 60%) yn dal mewn ysgolion (2B ac EW) lle gallent osgoi addysg gyfrwng Gymraeg ar ganol y degawd nesaf, felly ni ellir gosod amcan is na hyn heb danseilio'r holl weledigaethol ac egwyddorion. Rhaid symud fesul ysgol ar y continwmm, nid ffocysu ar annog myfyrwyr unigol.

Deilliant 6 - darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Croesawn cydnabyddiaeth y Cyngor am y darpariaeth 'gyfyngedig' dwyiethiog yn eu hysgolion a'u hunedau arbennig. Hoffem weld fframwaith neu amserlen gyda thargedau am wella'r darpariaeth. Mae rhaid sicrhau bod pob disgybl Cymraeg gydag anghenion arbennig yn cael cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na cheisio ymdopi gyda newid iaith sydd rhoi anfantais ychwanegol iddyn nhw.

Deilliant 7 - cynllunio'r gwrithlu a datblygiad proffesiynol parhaus. Cefnogwn y camau a fwriedir ar lefel sirol a gofynnwn am gefnogaeth y Cyngor Sir i bwysau Cymdeithas yr Iaith ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i ddarparu gweithlu ar gyfer addysg Gymraeg, gan gynnwys rhoi cyfrifoldeb i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a leolir yng Nghaerfyrddin.